Cyngor Llyfrau Cymru

Llyfrau a Chyhoeddi: Y Weledigaeth ar Waith

Cynllun Corfforaethol 2005·2006/2007·2008

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

C Y N N W Y S

		Tud.
1	Cyflwyniad	2
2	Crynodeb	4
3	Pwrpas, Swyddogaethau Craidd a Phrif Amcanion	6
4	Y Cyngor a'i Amgylchfyd	8
	.1 Cryfderau	
	.2 Gwendidau	
	.3 Cyfleoedd	
	.4 Bygythiadau	
5	Blaenoriaethau	11
6	Strategaeth Tymor-canol (2005/06–2007/08)	12
	.1 Darparu Gwybodaeth, Hybu a Marchnata	
	.2 Darparu Gwasanaethau	
	.3 Cefnogi Awduron	
	.4 Grantiau Cyhoeddi	
	.5 Cyllid a Rheolaeth	
7	Strategaeth Tymor-hir	20
8	Adolygiad o'r Cynnydd yn y Prif Flaenoriaethau	23
9	Targedau	25
10	Anghenion Cyllidol (2005/06–2007/08)	27
11	Atodiadau	32

1 CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu strategaeth Cyngor Llyfrau Cymru ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'n cymryd i ystyriaeth weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer newid, fel y'i disgrifir yn *Cymru: Gwlad Well* a dogfennau perthnasol eraill, yn cynnwys *Cymru Greadigol: Creative Future* a *Iaith Pawb*.

Mae'r Cyngor yn nodi'n arbennig ei rôl wrth gyfrannu at y canlyniadau blaenoriaethol ac allweddol canlynol:

- helpu mwy o bobl i mewn i waith
- gwella iechyd
- datblygu cymunedau cryf, diogel
- creu gwell swyddi a sgiliau

O'r blaenoriaethau hyn, mae 1, 3 a 4 yn hynod o berthnasol i'r Cyngor Llyfrau, ac felly hefyd y blaenoriaethau sylfaenol, sef datblygiad cynaliadwy, cynhwysiad cymdeithasol a chyfle cyfartal.

Mae dau adroddiad diweddar a gynhyrchwyd gan y Cynulliad ar hyn o bryd yn gyrru agenda'r Cyngor, a byddant yn parhau i wneud hynny trwy gydol cyfnod y Cynllun hwn.

1 Mae adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth y Cynulliad ar Gyhoeddi (2002) wedi darparu llwyfan ar gyfer datblygiadau yr oedd mawr eu hangen ar gyhoeddi yn yr iaith Gymraeg, a chafodd yr adroddiad dderbyniad gwresog gan y diwydiant ac eraill â diddordeb yn y maes, yn enwedig llyfrgelloedd ac awduron.

2 Mae'r Adolygiad Polisi ar ysgrifennu Saesneg yng Nghymru, a baratowyd gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon y Cynulliad ac a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2004, wedi rhoi patrwm ar gyfer datblygu cyhoeddi Saesneg yng Nghymru. Wedi iddo dderbyn yn ddiweddar gyfrifoldebau Cyngor y Celfyddydau am gyhoeddi, mae'r Cyngor Llyfrau bellach mewn safle ddelfrydol i arwain y ffordd wrth weithredu argymhellion yr Adolygiad hanesyddol hwn – sydd nid yn unig wedi derbyn cefnogaeth pob plaid yn y Cynulliad, ond sydd hefyd wedi cael derbyniad brwdfrydig gan y diwydiant llyfrau a chan bob sefydliad perthnasol yng Nghymru. Rydym wedi ein calonogi gan ymateb cychwynnol y Gweinidog a'i ddatganiad fod rhagor o gyllid ar gael, a hynny ar unwaith, fel y gellir dechrau ar y gwaith yn 2004/05, a gobeithiwn yn ddiffuant y bydd mwy o adnoddau ar gael yn 2005/06.

Mae gweledigaeth tymor-hir y Cyngor yn amlwg yn cydweddu â ffordd y Cynulliad o feddwl, a gellir ei chrynhoi fel a ganlyn:

- helpu i sicrhau bod dewis eang o lyfrau o'r safon uchaf ar gael, yn Gymraeg a Saesneg, i ateb y galw gan bob sector o'r gymdeithas yng Nghymru a hynny mewn amgylchedd sy'n newid yn barhaus
- bod yn weithredol mewn hybu darllen a llythrennedd fel bod pob sector o'r gymdeithas, a phob oedran, yn dod yn ymwybodol o werth darllen, yn nhermau gwell sgiliau ar gyfer gwaith a datblygiad personol, ac ar gyfer pleser
- cryfhau strwythur cyhoeddi a llyfrwerthu yng Nghymru fel bod busnesau bach a bach iawn yn datblygu i fod yn fusnesau mwy ac egnïol

- annog a chynorthwyo cyhoeddwyr a llyfrwerthwyr i ddefnyddio technoleg fodern er mwyn marchnata llyfrau'n effeithiol yn electronig, gan gyrraedd cynulleidfa fyd-eang a fydd, yn ei thro, yn cryfhau delwedd Cymru dramor

- annog a chynorthwyo cyhoeddwyr i ddod o hyd i ddulliau newydd o gyhoeddi fel bod datblygiadau newydd a dulliau traddodiadol yn gweithio law yn llaw.

Rydym yn hynod ddiolchgar i Lywodraeth y Cynulliad am y cyfleoedd a grëwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Edrychwn ymlaen yn awr at weithio gyda'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon i wireddu'r weledigaeth a gyflwynir yn y fersiwn diweddaraf hwn o'r Cynllun Corfforaethol, ac yn enwedig i roi ar waith ymateb y Cabinet i'r Adolygiad Polisi ar ysgrifennu Saesneg yng Nghymru.

J. LIONEL MADDEN
Cadeirydd

GWERFYL PIERCE JONES
Cyfarwyddwr

2 CRYNODEB

.1 Cyngor Llyfrau Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yw'r unig gorff yng Nghymru sy'n ymwneud â holl ystod maes cyhoeddi, o lawysgrif yr awdur i ddosbarthu a hybu gwerthiant.

.2 Yn sgil trosglwyddo cyfrifoldebau sylweddol o Gyngor Celfyddydau Cymru i'r Cyngor Llyfrau (Ebrill 2003), mae'r Cyngor yn awr yn gyfrifol am ddatblygiad strategol y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn y ddwy iaith. Mae oblygiadau mawr ynghlwm wrth y datblygiad hwn ar gyfer y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, ac yn enwedig ar gyfer cyhoeddi yn yr iaith Saesneg (gw. t.9 a t.27 ymlaen).

.3 Bu i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gyhoeddi (yn Gymraeg), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gynhyrchu adroddiad sydd wedi derbyn croeso cynnes gan y diwydiant. Gyda grant ychwanegol o £250,000 yn 2002/03, a chyhoeddiad y byddai'r Grant Cyhoeddi (ar gyfer llyfrau Cymraeg) yn cynyddu ymhellach dros dair blynedd (£300,000 yn 2003/04 a £500,000 yn 2004/05 a 2005/06 yn eu tro) llwyddwyd i symud ymlaen ar bob un o'r pwyntiau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth y Cynulliad (gw. tt.17–18). Bydd y systemau grant a etifeddwyd gan Gyngor y Celfyddydau yn cael eu cyfuno â rhai y Cyngor Llyfrau o 2005 ymlaen.

.4 Bydd Adolygiad Polisi pellgyrhaeddol y Cynulliad ar ysgrifennu Saesneg yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2004, yn cael blaenoriaeth yn ystod cyfnod y Cynllun hwn. Gyda'r cyhoeddiad y bydd £250,000 o gyllid ychwanegol ar gael ar gyfer 2004/05, bydd y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau arian digonol dros y cylch ariannu nesaf er mwyn gweithredu argymhellion allweddol perthnasol yr Adolygiad. (gw. tt.28–29).

.5 Mae dwy elfen wahanol i waith y Cyngor:

- gwasanaethu'r fasnach lyfrau a chynnal rhaglen o weithgarwch i hybu llyfrau a darllen (ariannu craidd)
- dosbarthu grantiau cyhoeddi (Grant Cyhoeddi/Grant Llenyddiaeth)

O'r cyfanswm grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2004/05, mae 33% ohono ar gyfer cyflogau, gweinyddiaeth a'r rhaglen weithgarwch graidd ynghyd ag ariannu prosiect. Mae 67% yn arian i'w ddosbarthu mewn grantiau (gw. t.27).

.6 Cyfanswm costau gweithredol y Cyngor Llyfrau ar gyfer cyflogau, gweinyddu a gweithgareddau (ac eithrio'r Grantiau Cyhoeddi) yw £1.9 miliwn. Daw 40% o'r costau hyn o adnoddau'r Cyngor ei hun (h.y. incwm a gynhyrchir gan Adrannau'r Cyngor, gan gynnwys y Ganolfan Ddosbarthu) (gw. t.27).

.7 Comisiynodd y Cyngor Llyfrau nifer o adroddiadau allweddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf: mae adroddiad Kilborn yn strategaeth bum-mlynedd ar gyfer Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor. Mae dau adroddiad Rightscom, a gomisiynwyd gyda chefnogaeth Uned Polisi Economaidd y Cynulliad, yn darparu strategaeth ar gyfer manteisio'n llawn ar Dechnoleg Gwybodaeth i bwrpas marchnata a dosbarthu a datblygu i gyfeiriad e-gyhoeddi.

.8 Mae cynyddu gwerthiant ac ehangu'r farchnad ar gyfer llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru yn rhan annatod o'r Cynllun hwn. Bwriedir cynnal adolygiad o Gynllun Cynrychiolaeth y Cyngor yn 2004/05 a bydd ei ganfyddiadau'n gymorth i ffurfio polisi dros gyfnod y Cynllun.

.9 Mae Strategaeth Farchnata Gytûn y diwydiant, a gomisiynwyd ar gais y Cynulliad, wedi cael ei blaenoriaethu a'i chostio ac fe'i cynhwysir fel rhan o'r Cynllun (tt. 36–38). Ac yntau wedi derbyn y cyfrifoldeb o gydlynu'r gwaith o gynhyrchu'r Strategaeth, mae'r Cyngor yn arwain yr ymdrech ar ran y diwydiant i ddod o hyd i'r cyllid angenrheidiol er mwyn gweithredu'r canfyddiadau. Ystyrir y Strategaeth Farchnata Gytûn yn holl bwysig o ran trawsnewid y diwydiant i'r dyfodol – barn a ategir yn yr Adolygiad Polisi ar ysgrifennu Saesneg yng Nghymru.

.10 Mae hybu darllen a llythrennedd yn greiddiol i holl waith y Cyngor. Parheir i weithio ar nifer o brosiectau, gan gynnwys Diwrnod y Llyfr a gydlynir yng Nghymru gan y Cyngor Llyfrau. Paratoir adroddiad i werthuso'r hyn a gyflawnwyd gan Ddiwrnod y Llyfr 2004 a bydd hwnnw'n cael ei ystyried gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes sydd yn darparu'r gefnogaeth ariannol ar gyfer y cynllun hwn.

Mae'r Cyngor Llyfrau bob amser wedi dadlau bod angen cydlynu'r gwaith o hybu darllen ar hyd y flwyddyn a chredwn ein bod mewn sefyllfa ddelfrydol i ymgymryd â'r swyddogaeth hon gan gydweithio'n agos â llyfrgelloedd, yn eu swyddogaeth ehangach, a'r sector addysg. Gobeithiwn y bydd cyllid ar gyfer y prosiect hwn yn parhau er mwyn symud ymlaen gyda'r agenda allweddol hon sy'n rhan annatod o feddylfryd 'Gwlad sy'n Dysgu'.

Fel rhan o'r Strategaeth Farchnata Gytûn, ceisir hefyd ddod o hyd i ffynhonnell o arian i ehangu cwmpas y cynllun presennol i annog pobl i roi a phrynu llyfrau.

.11 Ymfalchïa'r Cyngor yn ei allu i weithio mewn partneriaeth ag eraill i gyrraedd ei amcanion. Ceir cyfeiriadau at lu o bartneriaethau yn y Cynllun hwn. Mae *Cymru'n Creu* wedi rhoi cyfeiriad newydd gyda Llywodraeth y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus yn mabwysiadu dull mwy unol ac integredig o weithio a pholisïau a rhaglenni'n ychwanegu gwerth at ei gilydd. Mae prosiect Llyfrau o'r Gorffennol, dan ofal Culturenet Cymru, gyda'r Cyngor Llyfrau fel y partner arweiniol, yn un enghraifft o bartneriaeth o'r fath.

3 PWRPAS, SWYDDOGAETHAU CRAIDD A PHRIF AMCANION

Sefydlwyd Cyngor Llyfrau Cymru yn 1961. Mae'n gorff cenedlaethol a chanddo statws elusennol ac fe'i hariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn gwasanaethu cyhoeddwyr, awduron a darllenwyr yng Nghymru. Fel corff allweddol ym myd llyfrau, y mae mewn sefyllfa unigryw i gynnig gwasanaethau a gwybodaeth i bawb sy'n ymwneud â'r maes. Golyga hyn ddarparu gwasanaethau arbenigol i'r byd cyhoeddi (ym meysydd golygu, dylunio, marchnata a dosbarthu) gyda golwg ar wella safonau cynhyrchu a chyhoeddi llyfrau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Cyngor hefyd yn dosbarthu grantiau i hybu cyhoeddi llyfrau a chylchgronau Cymraeg i blant ac oedolion (y Grant Cyhoeddi). Oddi ar Ebrill 2003 etifeddodd hefyd gyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru yn y maes cyhoeddi, h.y. dosbarthu grantiau ar gyfer llyfrau a chylchgronau o werth llenyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Pwrpas

Pwrpas y Cyngor yn ôl ei Gyfansoddiad yw:

> hybu, cefnogi a datblygu gwerthfawrogiad a diddordeb y cyhoedd mewn llenyddiaeth . . . [trwy]
>
> (a) cefnogi a chynorthwyo awduron ac addaswyr drwy roi grantiau a thrwy ddulliau eraill
>
> (b) cefnogi, hybu a chynorthwyo cynhyrchu a dosbarthu llyfrau a deunydd llenyddol ac artistig arall, ym mha ffurf bynnag y'u cofnodwyd (boed trwy ddulliau sy'n hysbys neu trwy ddulliau sydd hyd yn hyn yn anhysbys), yn Gymraeg neu'n ymwneud â Chymru
>
> (c) trefnu a chynnal arddangosfeydd o'r cyfryw lyfrau a deunydd arall
>
> (ch) cefnogi a hybu cyhoeddi'r cyfryw lyfrau a deunydd arall yng Nghymru

Swyddogaethau Craidd

Mae llawer o waith y Cyngor yn ymwneud â darparu gwasanaethau sylfaenol i'r fasnach gyhoeddi ac, yn anochel felly, nid cynlluniau tymor-byr mohonynt. Rhestrir isod y swyddogaethau craidd sy'n gwbl hanfodol er mwyn i'r Cyngor fedru cyflawni'i waith yn unol â'r Cyfansoddiad.

1 Hybu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru, ynghyd â deunydd cyffelyb arall, trwy ddarparu gwybodaeth a thrwy raglen lawn o weithgarwch.

2 Hybu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn ei holl agweddau trwy ddarparu rhychwant o wasanaethau a thrwy gyd-gysylltu buddiannau awduron, cyhoeddwyr, llyfrwerthwyr a llyfrgelloedd.

3 Cynorthwyo a chefnogi awduron trwy ddarparu gwasanaethau a thrwy gynnig grantiau/comisiynau a sianelir trwy gyhoeddwyr.

4 Dosbarthu grantiau i gynorthwyo cyhoeddi deunydd o ansawdd yn y Gymraeg a'r Saesneg gan sicrhau bod y cynnyrch ar gael yn eang.

Cefnogir y swyddogaethau craidd hyn gan:

i) Strwythurau rheoli addas
ii) Rheolaeth ariannol effeithiol

Mae'r swyddogaethau craidd hyn yn sail i strategaeth y Cyngor yn y tymor hir (gweler adran 7).

Prif Amcanion

1 Bod yn ffynhonnell gynhwysfawr ar gyfer gwybodaeth am lyfrau o ddiddordeb Cymreig (rhai ar gael yn gyfredol a theitlau ar fin ymddangos) a phob agwedd yn ymwneud â'r fasnach lyfrau yng Nghymru.

2 Gweithio mewn partneriaeth â'r fasnach a'r llyfrgelloedd i drefnu a chydlynu cynlluniau marchnata a hyrwyddo sydd yn berthnasol i Gymru gyfan.

3 Hybu diddordeb mewn llyfrau plant trwy gyfrwng ymgyrchoedd a rhaglen lawn o weithgarwch gan dargedu ysgolion yn arbennig.

4 Darparu gwasanaeth golygu a dylunio i gyhoeddwyr Cymru.

5 Darparu gwasanaeth cyfanwerthu i'r fasnach lyfrau yng Nghymru.

6 Darparu gwasanaethau i lyfrgelloedd.

7 Darparu gwasanaethau a grantiau/comisiynau i awduron (taliadau i'w sianelu trwy gyhoeddwyr).

8 Dosbarthu Grantiau Cyhoeddi er mwyn cynorthwyo i gyhoeddi deunydd o safon yn y Gymraeg a'r Saesneg a sicrhau bod y cynnyrch yn cael ei farchnata'n effeithiol. Mynd i'r afael â gwendidau yn strwythur y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru.

9 Sicrhau rheolaeth weinyddol ac ariannol effeithiol ac effeithlon.

4 Y CYNGOR A'I AMGYLCHFYD

Cryfderau

.1 Mae'r Cyngor yn gorff cenedlaethol, annibynnol, a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad, sy'n ganolbwynt i'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Er bod nifer o sefydliadau, yn enwedig ym maes addysg, yn ymwneud ag agweddau ar gyhoeddi, nid oes unrhyw sefydliad arall yng Nghymru sy'n ymwneud â holl ystod maes cyhoeddi, o lawysgrif yr awdur i ddosbarthu a hybu gwerthiant. Mae'r berthynas waith agos sy'n bodoli rhwng y Cyngor a nifer o'r prif sefydliadau eraill sy'n gweithio yng Nghymru, megis Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, ACCAC, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, yn gydnabyddiaeth o'r rôl unigryw hon. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd wedi cydnabod y swyddogaeth hon ac yn dibynnu ar y Cyngor Llyfrau am gyngor ac arweiniad ar faes llyfrau a'r diwydiant cyhoeddi.

.2 Rheolir y Cyngor Llyfrau gan Gyngor a Phwyllgor Gwaith sy'n cynnwys croestoriad eang o'r byd llenyddol, diwylliannol ac addysgol, gan gynnwys cynrychiolaeth o lywodraeth leol. Bu cydweithredu agos, yn hanesyddol, ag awdurdodau lleol Cymru ac â'r llyfrgelloedd cyhoeddus ac mae hyn wedi parhau oddi ar ad-drefnu llywodraeth leol. Er gwaethaf y newid yn y trefniadau ariannu, bydd y cysylltiad agos ag awdurdodau lleol yn parhau.

.3 Mae lleoliad cyfleus y Cyngor yng nghanol Cymru yn gymorth i roi gwasanaeth cyflym, effeithiol i bob rhan o Gymru.

.4 Bu ei leoliad hefyd yn gymorth i feithrin perthynas agos â Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Phrifysgol Cymru, Aberystwyth, yn arbennig ei Hadran Astudiaethau Gwybodaeth. Ym 1997 ffurfiolwyd y bartneriaeth rhwng y tri chorff trwy sefydlu Canolfan y Llyfr Aberystwyth. Bydd y Cyngor hefyd yn sefydlu cysylltiadau clòs gyda CyMAL, sydd wedi'i leoli yn Aberystwyth.

.5 Gall y Cyngor ymfalchïo yn natur ymroddedig a brwd ei staff, eu gallu i gyflawni'u dyletswyddau'n gyflym ac yn effeithiol, yn aml dan bwysau, a'u parodrwydd i ymaddasu ac i ymateb i ofynion newydd.

.6 Mae bodolaeth cymdeithas weithredol o Gyfeillion yn gydnabyddiaeth o'r gefnogaeth a'r ewyllys da tuag at y Cyngor a'i waith ymhlith caredigion y byd llyfrau yng Nghymru.

Gwendidau

.1 Mae hanes hir o ddiffyg sefydlogrwydd ariannu ac adnoddau cyfyngedig, ynghyd â gor-ddibyniaeth ar arian prosiect, wedi arwain at anghydbwysedd o fewn rhaglen waith y Cyngor. Dim ond yn ddiweddar y dechreuwyd delio â'r mater hwn.

.2 Mae prinder adnoddau wedi cyfyngu ar allu'r Cyngor i ddatblygu mewn rhai meysydd pwysig, marchnata yn arbennig.

.3 Bu i'r gorgyffwrdd rhwng swyddogaethau Cyngor y Celfyddydau a'r Cyngor Llyfrau, a natur gyfyngedig swyddogaethau'r naill gorff a'r llall, arwain at fylchau amlwg yn y gynhaliaeth i'r diwydiant cyhoeddi a diffyg cynllunio strategol i'r diwydiant yn ei gyfanrwydd. Erys y strwythur, yn arbennig, yn beryglus o wan. (Cafodd y materion hyn eu tanlinellu yn yr Adolygiad Polisi ar ysgrifennu Saesneg yng Nghymru.)

Cyfleoedd

.1 Mae ariannu uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad (gan ddisodli trefn drwsgl y gorffennol o dderbyn arian gan nifer o gyrff ac awdurdodau) yn galluogi'r Cyngor i ganolbwyntio'i holl egni ar fynd i'r afael â'i swyddogaethau craidd a'i brif amcanion.

.2 Fel corff sy'n atebol yn uniongyrchol i Lywodraeth y Cynulliad, gall y Cyngor Llyfrau bellach ddadlau achos y sector cyhoeddi yn uniongyrchol gerbron Llywodraeth y Cynulliad.

.3 Yn sgil trosglwyddo'r cyfrifoldebau am gyhoeddi o Gyngor y Celfyddydau i'r Cyngor Llyfrau (oddi ar Ebrill 2003) ceir cyfle am y tro cyntaf i ddatblygu'r diwydiant cyhoeddi yn ei gyfanrwydd a gwneud hynny mewn modd strwythuredig.

.4 Mae'r datblygiadau arwyddocaol hyn, ynghyd â'r Adolygiad Polisi ar ysgrifennu Saesneg yng Nghymru, yn cynnig cyfle unigryw i fynd i'r afael ag anghenion dybryd cyhoeddi Saesneg yng Nghymru. Mae cyhoeddi yn yr iaith Gymraeg eisoes wedi derbyn hwb sylweddol yn dilyn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac mae'r datblygiadau'n parhau.

.5 Mae'r Strategaeth Farchnata Gytûn, a baratowyd ar gais Llywodraeth Cynulliad Cymru ac a ganmolwyd gan y Pwyllgor Diwylliant yn ei Adolygiad Polisi, yn gyfle ardderchog i fynd i'r afael â gwendidau ar yr ochr farchnata.

.6 O ganlyniad i sefydlu *Cymru'n Creu*, mae gan y sector diwylliannol bellach ganolbwynt cryf gyda'r Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus yn darparu dull mwy unedig ac integredig o weithredu, a gyda pholisïau a rhaglenni'n ychwanegu gwerth at ei gilydd.

.7 Mae yna gyfleoedd yn awr i'r Cyngor Llyfrau weithio'n agos gyda'r Academi ar brosiectau a fydd yn elwa ar ymdriniaeth ar y cyd, e.e. Llyfr y Flwyddyn, Gŵyl y Gelli.

.8 Mae'r bartneriaeth rhwng y Cyngor Llyfrau a Literary Publishers (Wales) Ltd (consortiwm o gyhoeddwyr) wedi creu cyfle i ddatblygu ar y cyd gynlluniau i farchnata llyfrau Saesneg yng Nghymru a thu hwnt. Mae penodi Swyddog Marchnata Dramor wedi rhoi cyfle gwych i'r Cyngor gydweithio â chyhoeddwyr i ddatblygu'r farchnad dramor ar gyfer llyfrau o Gymru.

.9 Mae gwelliannau diweddar i *gwales.com* (gwasanaeth y Cyngor Llyfrau ar gyfer chwilio ac archebu ar y we) yn galluogi unigolion ledled y byd i archebu llyfrau'n uniongyrchol a hefyd yn cynnig cyfleoedd newydd i lyfrwerthwyr archebu llyfrau'n electronig o Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor. Bydd y datblygiadau hyn yn creu marchnadoedd newydd i lyfrau o Gymru, yn y ddwy iaith.

.10 Mae'r Cyngor Llyfrau'n croesawu'n fawr y cynnydd ym mhwysigrwydd llyfrgelloedd sy'n darparu cyfleoedd pellach ar gyfer cydweithio. Er enghraifft, bu gan y Cyngor ran yn y gwaith o ddatblygu darllenwyr (*reader development*) fel rhan o'r cynllun *Estyn Allan* a ariennir gan y Loteri Cenedlaethol. Bydd cyfleoedd pellach yn codi yn dilyn sefydlu CyMAL.

.11 Mae technoleg newydd yn cynnig nifer o gyfleoedd ar gyfer cyhoeddi, e.e. y gallu i argraffu-ar-alw, gwerthiant ar-lein (e.e. yng nghyswllt yr ôl-restr) ac e-gyhoeddi mewn amryfal ffurfiau.

Bygythiadau

.1 Ariannu annigonol i fanteisio ar gyfleoedd newydd.

.2 Mae Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor yn hunangynhaliol ac nid yw'n derbyn unrhyw grantiau o'r pwrs cyhoeddus tuag at ei chynnal. Mae'n debygol o ddod dan bwysau cynyddol i dalu ei ffordd mewn amgylchfyd sy'n newid yn gyflym, lle mae gwerthu uniongyrchol yn debygol o gynyddu ac arbedion graddfa yn ffafrio cyfanwerthwyr masnachol mawr y DU. [Lluniwyd strategaeth bum-mlynedd (adroddiad Kilborn) sydd bellach yn cael ei gweithredu.]

.3 Mae'n demtasiwn i aelodau unigol o'r fasnach lyfrau geisio ennill elw tymor-byr ar draul gweithredu ar y cyd.

5 BLAENORIAETHAU

.1 Gofalu bod swyddogaethau craidd y Cyngor yn cael eu cyflawni yn unol â gofynion y Cyfansoddiad.

.2 Parhau i weithio ar y Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno yn dilyn cwblhau adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

.3 Gweinyddu'r Grant Llenyddiaeth a drosglwyddwyd o Gyngor y Celfyddydau yn unol â'r cytundeb a lofnodwyd gyda Chyngor y Celfyddydau. Parhau'r trafodaethau â chyhoeddwyr gyda golwg ar gyflwyno un gyfundrefn integredig o weinyddu'r Grant Cyhoeddi a'r Grant Llenyddiaeth hyd y bo modd o 2005.

.4 Dechrau rhoi ar waith argymhellion yr Adolygiad Polisi ar ysgrifennu Saesneg yng Nghymru o ran ysgrifennu newydd, comisiynu cyfres o glasuron (*Library of Wales*) a threfnu cyfres o wobrau i'r diwydiant. Gweithio i sicrhau bod cyllid digonol ar gael dros y cylch ariannu nesaf i weithredu prif argymhellion yr Adolygiad.

.5 Sicrhau cyllid i weithredu'r Strategaeth Farchnata Gytûn ar gyfer y diwydiant (un o argymhellion allweddol yr Adolygiad Polisi) a gweithio gyda'r diwydiant a sefydliadau perthnasol i wella marchnata trwy gynlluniau a phartneriaethau ar y cyd.

.6 Parhau i weithio ar argymhellion adroddiad Kilborn ar Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor yn unol â'r Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno. Bydd yr adolygiad o'r cynllun cynrychiolaeth, a gynhelir yn 2005, yn cynghori ar gyfeiriad y cynllun mewn cydweithrediad â phartneriaid yn y diwydiant. Bydd cynyddu gwerthiant yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth.

.7 Paratoi Strategaeth Systemau Gwybodaeth ar gyfer y Cyngor.

.8 Parhau i ddatbygu *gwales.com* a gweithio'n egnïol i hyrwyddo'r safle i'r diwydiant ac i unrhyw un ar draws y byd a fyddai'n gwerthfawrogi gwasanaeth archebu ar-lein cynhwysfawr ac effeithiol ar gyfer llyfrau o Gymru.

.9 Gweithredu cynllun i helpu siopau llyfrau bach, annibynnol. Pwyso am gefnogaeth bellach ar gyfer y sector yn unol ag argymhellion y Strategaeth Farchnata Gytûn.

.10 Ceisio sicrhau cyllid i barhau i gydlynu Diwrnod y Llyfr a gweithgareddau perthynol eraill i ddathlu llyfrau a darllen, ar sail yr adroddiad gwerthuso ar Ddiwrnod y Llyfr 2004. Ceisio sicrhau bod ffiniau Diwrnod y Llyfr fel digwyddiad yn cael eu hymestyn i gynnwys annog pobl i brynu a rhoi llyfrau.

.11 Cydweithio â'r Academi a Chyngor y Celfyddydau i ddatblygu digwyddiadau megis Llyfr y Flwyddyn a Gŵyl y Gelli i gynyddu gwerthiant ymhellach.

.12 Parhau i gydweithio gyda Culturenet Cymru ar y prosiect Llyfrau o'r Gorffennol. Mae Culturenet Cymru yn bwriadu comisiynu astudiaeth ddichonoldeb i fynd â'r gwaith rhagddo.

6 STRATEGAETH TYMOR-CANOL (2005/06–2007/08)

6.1 Darparu Gwybodaeth, Hybu a Marchnata

Amcan

Hybu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru, ynghyd â deunydd cyffelyb arall, trwy ddarparu gwybodaeth a thrwy raglen lawn o weithgarwch.

.1 Darparu Gwybodaeth

Bydd y Cyngor yn parhau i fod yn ffynhonnell gynhwysfawr ar gyfer gwybodaeth am lyfrau (rhai ar gael yn gyfredol a theitlau ar fin ymddangos) ac ar bob agwedd yn ymwneud â'r fasnach lyfrau. Bydd y canlynol yn cael eu darparu'n rheolaidd:

- Gwybodaeth gywir, ar-lein ar yr holl ystod o lyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru, yn cynnwys manylion bywgraffyddol, disgrifiadau, cloriau ac adolygiadau.
- CD-ROM misol ar gyfer y fasnach – i gyfateb i fersiwn all-lein o *gwales.com*.
- Cynhyrchu Catalog Llyfrau Plant (Cymraeg) yn flynyddol, mewn cydweithrediad ag ACCAC.
- Cynhyrchu Catalog Llyfrau Plant (Saesneg) bob dwy flynedd.
- Catalogau testunol a thaflenni hybu a gynhyrchir dan y Cynllun Ymestyn a'r Cynllun Ysgolion.
- Atodiadau hysbysebu tymhorol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Bwletin gwybodaeth deufisol (*Mewn Print*) ar gyfer y fasnach.

Gwneir defnydd cynyddol o'r cyfleusterau e-bost i gylchredeg gwybodaeth i gyhoeddwyr, llyfrwerthwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

Oddi ar lansio *gwales.com* yn Chwefror 2000, mae ein cronfa ddata o tua 21,000 o deitlau ar gael ar y we gan alluogi defnyddwyr allanol i gael gwybodaeth gyfredol am brisiau, argaeledd ac ati ac, yn fwy diweddar, y gallu i archebu'n electronig. Mae gwelliannau sylweddol a wnaed yn ystod 2004 wedi cryfhau ochr farchnata'r safle gan alluogi defnyddwyr i symud yn hawdd o'r wybodaeth farchnata i archebu ar-lein. Gosodir adolygiadau ar y system yn gyson ac erbyn Mawrth 2004 cyrhaeddwyd y targed y cytunwyd arno o 1,500 o adolygiadau. Hefyd mae modd cynnwys ar y system farn darllenwyr ar y llyfrau a ddarllenwyd ganddynt. Cynhyrchir cylchlythyr newyddion electronig (e-lythyr) yn fisol ar gyfer defnyddwyr *gwales.com*.

Bydd y Cyngor yn datblygu ei wefan gyffredinol (www.cllc.org.uk) yn ystod cyfnod y Cynllun gyda'r bwriad o sicrhau bod yr wybodaeth yn gynhwysfawr ac yn gyfredol, ac wedi ei chyflwyno'n glir ac yn ddeniadol. Bydd *gwales.com* yn cael ei hyrwyddo mor eang ag y bo modd yn ystod y cyfnod hwn.

.2 Hybu a Marchnata (Llyfrau i Oedolion)
Bydd Adran Farchnata'r Cyngor yn parhau i drefnu nifer o gynlluniau i hybu diddordeb mewn llyfrau ac mewn darllen ac i fod yn gefn i ymdrechion cyhoeddwyr i hybu teitlau unigol. Bydd y pwyslais ar y canlynol:

- Gweithio gyda'r fasnach a phartneriaid eraill i weithredu argymhellion y Strategaeth Farchnata Gytûn (yn ddibynnol ar gyllid ychwanegol).

- Gweinyddu'r Cynllun Ymestyn sy'n helpu i gynorthwyo llyfrwerthwyr i fynychu achlysuron amrywiol er mwyn ehangu cylch eu cwsmeriaid a thrwy hynny hybu gwerthiant.

- Datblygu Diwrnod y Llyfr i fod yn ganolbwynt i weithgarwch yn ymwneud â darllen a llyfrau ledled Cymru (gweler y dudalen nesaf).

- Trefnu ymgyrchoedd gwerthu, megis *Nofel y Mis*, *Wales Book of the Month.*

- Gweinyddu'r Cynllun Tocynnau Llyfrau – a gafodd ei ailwampio a'i ail-lansio'n ddiweddar – mewn cydweithrediad â llyfrwerthwyr Cymru.

- Cyhoeddi dau atodiad hysbysebu ar gyfer llyfrau Cymraeg (*Gwledd y Nadolig* a *Llyfrau'r Haf*), ac atodiad arall i hybu llyfrau Saesneg o Gymru (*Books from Wales*) yn ystod cyfnod y Nadolig.

- Trefnu ymgyrch hysbysebu ar y teledu yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig.

- Trefnu arwerthiant llyfrau'n flynyddol, mewn cydweithrediad â'r cyhoeddwyr a'r llyfrwerthwyr.

- Cynnal stondinau yn y ddwy eisteddfod genedlaethol a Sioe Amaethyddol Llanelwedd. Chwilio i mewn i'r posibilrwydd o fynychu Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen.

- Trefnu stondin yn Ffair Lyfrau Llundain a chymryd rhan yn Ffair Lyfrau Frankfurt.

- Mae ymweld â ffeiriau llyfrau, arddangosfeydd a digwyddiadau y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol hefyd yn flaenoriaeth i'r Swyddog Marchnata Dramor.

- Gweithio gydag Awdurdodau Llyfrgell Cymru i annog sefydlu grwpiau darllen ar draws Cymru.

.3 Hybu diddordeb mewn Llyfrau Plant
Bydd Adran Llyfrau Plant y Cyngor yn parhau i hybu diddordeb mewn llyfrau plant trwy arddangosfeydd a thrwy raglen lawn o weithgarwch. Bydd y pwyslais ar y canlynol:

- Parhau â'r gweithgarwch i hybu darllen yn y sector uwchradd. Yn 2005/06 bydd darllenwyr anfoddog a dysgwyr (y Gymraeg) yn cael eu targedu.

- Parhau â'r cynllun i hybu llyfrau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd trwy gyfuniad o ymweliadau gan swyddogion ysgolion a phostiadau rheolaidd i'r ysgolion i gyd.

- Trefnu cystadlaethau ar y cyd â'r llyfrgelloedd a'r AALl i hybu darllen mewn ysgolion cynradd. Trefnir Rowndiau Cenedlaethol i hybu llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru.

- Parhau i drefnu clybiau llyfrau i blant – *Sbri-di-ri* i blant 3–6 oed a *Sbondonics* i blant 7–11 oed – gan anelu at werthiant o tua £100,000 y flwyddyn.

- Ailgynllunio'r adran blant ar wefan y Cyngor fel adnodd ar gyfer athrawon, rhieni a llyfrgellwyr.

- Trefnu seminarau a chyrsiau i drafod tueddiadau ym maes llyfrau plant.

- Parhau i weithio gyda'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i adnabod a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu sgiliau sylfaenol (trwy Wobrau Llyfrau a chynlluniau hyrwyddo).

.4 Diwrnod y Llyfr

Mae Diwrnod y Llyfr yn parhau i gael ei gydlynu gan Gyngor Llyfrau Cymru a chaiff ei ariannu trwy grant blynyddol o £75,000 o gyllideb Addysg a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth y Cynulliad.

Comisiynwyd adroddiad gwerthuso yn 2003 i asesu effaith Diwrnod y Llyfr yng Nghymru dros gyfnod o dair blynedd. Comisiynwyd adroddiad pellach yn 2004, a chaiff hwnnw ei gyflwyno i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Ar sail yr adroddiadau hyn, mae'r Cyngor yn gobeithio sicrhau trefniant o gyllido dros gyfnod hwy er mwyn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma. Mae'r ddau adroddiad yn tystio i gyllun hynod lwyddiannus sy'n pontio rhwng y gwahaniaethau addysgol a diwylliannol ac yn tynnu i mewn nifer fawr o bartneriaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Mae'r diwydiant llyfrau hefyd yn awyddus iawn i ehangu cwmpas Diwrnod y Llyfr er mwyn annog y syniad o roi a phrynu llyfrau (gw. y Strategaeth Farchnata Gytûn).

6.2 Darparu Gwasanaethau

Amcan

Hybu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn ei holl agweddau trwy ddarparu rhychwant o wasanaethau a thrwy gyd-gysylltu buddiannau awduron, cyhoeddwyr, llyfrwerthwyr a llyfrgelloedd.

.1 Gwasanaethau Golygu a Dylunio

Bydd yr Adrannau Golygyddol a Dylunio'n parhau i ddarparu gwasanaethau golygyddol a dylunio cynhwysfawr i gyhoeddwyr Cymru, yn cynnwys golygu testunau a darllen proflenni a darparu gwasanaeth dylunio a darlunio yn ôl y gofyn. Gwneir hyn trwy gyfuniad o wasanaeth mewnol a dosbarthu'r gwaith ymhlith darllenwyr, golygyddion, dylunwyr a darlunwyr allanol.

.2 Gwasanaeth Dosbarthu/Cyfanwerthu

Dyma, o bosib, ddolen bwysicaf y gadwyn gyhoeddi, ac mae'r Cyngor wedi rhoi cryn sylw i ddatblygu'r agwedd hon o'i waith dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r datblygiadau'n cynnwys buddsoddi mewn systemau cyfrifiadurol o'r radd flaenaf ar gyfer gweithredu'n fewnol a hefyd, yn achos *gwales.com,* ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid masnachol y Ganolfan Ddosbarthu ac i aelodau'r cyhoedd ar gyfer chwilio am wybodaeth am lyfrau a chael cyfle i'w prynu. Mae'r datblygiadau hefyd yn cynnwys cyflwyno gwasanaeth dosbarthu diwrnod-wedyn i gwsmeriaid y fasnach ac unigolion yng Nghymru a Lloegr.

Rhoddir blaenoriaeth i'r canlynol dros gyfnod y Cynllun:

- Parhau i weithredu argymhellion adroddiad Kilborn ar ddyfodol y Ganolfan Ddosbarthu, yn unol â'r Cynllun Gweithredu, gan gynnwys creu polisi dychwel, cyflwyno cytunebau ffurfiol rhwng y Ganolfan Ddosbarthu a Chyhoeddwyr, a threfnu adolygiad o'r drefn gynrychiolaeth.

- Cynyddu trosiant drwy nifer o ddulliau – yn cynnwys marchnata mwy effeithiol (cf. y Strategaeth Farchnata Gytûn) a chynyddu'r ystod o fannau gwerthu sy'n stocio llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru. Rhoddir blaenoriaeth i wneud y llyfrau'n fwy gweladwy, yn enwedig yn y siopau cadwyn, a hefyd i wella'r dewis o lyfrau a gaiff eu stocio yn y siopau bach, annibynnol.

- Mae gwelliannau diweddar i *gwales.com* yn galluogi prynu llyfrau o Gymru ar-lein a'u dosbarthu i unigolion ar draws y byd. Fe fydd *gwales* yn cael ei hybu'n egnïol yn ystod cyfnod y Cynllun.

- Bydd y gwelliannau diweddar a wnaed i wefan *gwales* yn caniatáu i siopau fonitro archebion ar-lein yn electronig ac i anfon archebion trwy e-bost i system gyfrifiadurol y Ganolfan Ddosbarthu.

.3 Gwasanaethau i Lyfrgelloedd

Yn dilyn yr Adolygiad Polisi, rhoddir blaenoriaeth i weithio gydag Awdurdodau Llyfrgell i wella'r stoc a gedwir o lyfrau Saesneg o Gymru, ac i'w hannog i arddangos detholiad o'r teitlau gorau. Caiff Swyddog Cyswllt Llyfrgelloedd ei benodi yn 2004 i sicrhau bod y gwaith yn cael ei ddechrau'n fuan.

Bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio'n agos â llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru trwy ddarparu gwybodaeth a chyngor a thrwy gydweithio ar gynlluniau hyrwyddo llyfrau. Bydd cysylltiadau agos â chynrychiolwyr Estyn Allan yn cael eu cynnal. Nodir isod y prif elfennau:

- Gofalu bod yr holl restrau, taflenni, catalogau ac yn y blaen yn cyrraedd y llyfrgelloedd (gweler 6.1.1 uchod).

- Trefnu copïau sampl o lyfrau newydd ar gyfer llyfrgelloedd mewn cydweithrediad â llyfrwerthwyr.

- Sicrhau bod llyfrgellwyr yn effro i bosibiliadau *gwales.com*.

- Cydweithio â llyfrgelloedd ar gynlluniau datblygu darllenwyr, e.e. grwpiau darllen, cadwyni darllen, cynlluniau i hybu darllen (e.e. y Rôlyrcôstyr Darllen 2004).

6.3 Cefnogi Awduron

Amcan

Cynorthwyo a chefnogi awduron trwy ddarparu gwasanaethau a thrwy gynnig grantiau/comisiynau a sianelir trwy gyhoeddwyr.

Bydd yr Adran Olygyddol yn parhau i gynnig cyngor i awduron trwy drefnu adroddiadau darllenwyr ar eu gwaith a'u cynorthwyo i ddod o hyd i gyhoeddwyr. Mae'r Adran Olygyddol a'r Adran Ddylunio mewn cyswllt cyson ag awduron, naill ai'n uniongyrchol neu trwy gyfrwng y cyhoeddwyr, wrth lywio'u llyfrau trwy'r wasg. Mae llawer o awduron yn aelodau o Gyfeillion y Cyngor Llyfrau.

Nodir isod agweddau eraill ar gefnogaeth y Cyngor i awduron Cymru:

- Trefnir Gwobrau Tir na n-Og yn flynyddol i wobrwyo'r llyfrau plant gorau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y cydweithio rhwng S4C a'r Cyngor Llyfrau'n parhau, gyda golwg ar godi proffil y gwobrau. Bellach cyhoeddir y rhestr fer ar y teledu a neilltuir rhaglen gyfan i'r gwobrwyo.

- Cefnogi cynllun Bardd Plant Cymru, menter ar y cyd ag S4C, yr Urdd a'r Academi.

- Mae Tlws Mary Vaughan Jones, a ddyfernir bob tair blynedd, yn cydnabod cyfraniad awduron (ymhlith eraill) i faes llenyddiaeth plant dros gyfnod hir. Dyfernir y Tlws nesaf yn hydref 2006.

- Comisiynir adolygiadau i ymddangos ar *gwales.com.* Pennwyd targed o 500 o adolygiadau y flwyddyn ac mae tua 1,500 o adolygiadau ar y safle ar hyn o bryd (Ebrill 2004). Bydd hyn yn parhau, a bydd y safle hefyd yn cynnwys sylwadau gan ddarllenwyr.

- Cynhyrchir taflenni *Adnabod Awdur* yn rheolaidd i hybu awduron a'u llyfrau.

- Trefnir cyrsiau i awduron o bryd i'w gilydd er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth mewn rhai meysydd, yn enwedig llenyddiaeth boblogaidd. (Mae hyn yn gysylltiedig â gwaith y Cyngor Llyfrau'n dosbarthu'r Grant Cyhoeddi.)

- Mae'r cynnydd diweddar yn y Grant Cyhoeddi (Cymraeg) yn cynnwys darpariaeth gogyfer â grantiau awduron a chomisiynau, gyda mwyafswm ffi o £10,000 ar gael fel rhan o raglenni'r cyhoeddwyr.

- Yn dilyn yr Adolygiad Polisi, bydd blaendaliadau i awduron/comisiynau ar gael i ymestyn y ddarpariaeth o ysgrifennu Saesneg yng Nghymru ac i gefnogi ysgrifennu safonol o natur boblogaidd ac iddo'r potensial i gyrraedd marchnad eang.

6.4 Grantiau Cyhoeddi

Amcan

Dosbarthu grantiau i gynorthwyo cyhoeddi deunydd o ansawdd yn y Gymraeg a'r Saesneg gan sicrhau bod y cynnyrch ar gael yn eang.

.1 Y Grant Cyhoeddi
Yn ystod 2003/04 parhaodd y Cyngor Llyfrau i weithredu'r newidiadau a ddeilliodd o adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, yn cynnwys:

1 y flwyddyn gyntaf o gefnogaeth i raglenni blynyddol yn achos y prif gyhoeddwyr
2 comisiynau i awduron (cafodd hyn ei ehangu yn 2004/05 i gynnwys peth cefnogaeth i ddarlunwyr a ffotograffwyr)
3 cefnogi swyddi golygyddol yn y prif dai cyhoeddi
4 comisiynu ymchwil farchnad
5 cydlynu'r gwaith o baratoi'r Strategaeth Farchnata Gytûn.

Mae'r datblygiadau hyn i gyd yn parhau yn y flwyddyn gyfredol, 2004/05, gyda rhai cynlluniau newydd:

6 sicrhawyd cyllid i gefnogi llyfrau llafar
7 sicrhawyd cyllid ychwanegol er mwyn gallu cynyddu'r gefnogaeth ar gyfer cylchgronau i bobl ifanc.

Y prif flaenoriaethau ar gyfer cyfnod y Cynllun fydd:

- parhau i ariannu 1–3 uchod ac i fonitro'r hyn a gyflawnwyd dros y cyfnod cychwynnol o dair blynedd
- trefnu ymchwil farchnad yn rheolaidd
- gweithredu'r Strategaeth Farchnata Gytûn, yn amodol ar gyllid ychwanegol. Mae peth darpariaeth ar gael o 2004/05 ymlaen ar yr ochr Gymraeg.
- parhau â'r datblygiadau a nodwyd yn 6 a 7 a monitro eu llwyddiant.

.2 Y Grant Llenyddiaeth (Grantiau Cyhoeddi a weinyddid yn flaenorol gan Gyngor y Celfyddydau hyd fis Mawrth 2003)

Gweinyddwyd y grant hwn gan y Cyngor Llyfrau am y tro cyntaf yn 2003/04, ac anrhydeddwyd pob un o'r ymrwymiadau a etifeddwyd gan Gyngor y Celfyddydau. Glynwyd hefyd at y drefn a etifeddwyd o ran y cydbwysedd rhwng cyhoeddiadau Saesneg a rhai Cymraeg.

Y Grant Llenyddiaeth Cymraeg
Ar yr ochr Gymraeg, yr amcan yn gyffredinol yw cyfuno'r Grant Llenyddiaeth a'r Grant Cyhoeddi presennol, gan amddiffyn ar yr un pryd yr elfennau a etifeddwyd.

- Bydd y gefnogaeth i lyfrau o fewn y Grant Llenyddiaeth yn cael ei chyfuno mor gyflawn ag y bo modd gyda'r Grant Cyhoeddi o Ebrill 2005 ymlaen.
- Bydd dyfodol y cylchgronau a gefnogir trwy grant refeniw yn cael ei adolygu yn 2005/06 gan fod y trwyddedau presennol yn dod i ben ym mis Mawrth 2006.

Y Grant Llenyddiaeth Saesneg
Ar yr ochr Saesneg, yr amcan yw adeiladu ar y gwaith a wnaed yn 2004/05 i sicrhau fod y cyllid ychwanegol ar gyfer ysgrifennu Saesneg yng Nghymru yn cael ei gyfuno gyda'r Grant Llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes, gan amddiffyn ar yr un pryd yr elfennau a etifeddwyd.

- Bydd adolygiad o drwyddedau'r cylchgronau yn digwydd yn ystod 2005/06, gan fod y trwyddedau presennol yn dod i ben ym mis Mawrth 2006.

Ysgrifennu Saesneg yng Nghymru: Cyllid Ychwanegol
Mewn ymateb i Adolygiad Polisi y Cynulliad Cenedlaethol (*Ysgrifennu Saesneg yng Nghymru: Adolygiad* [Mawrth 2004]), sicrhawyd cyllid ychwanegol o £250,000 yn ystod 2004/05 i gefnogi ysgrifennu Saesneg yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn yn ychwanegol i'r Grant Llenyddiaeth sy'n bod yn barod. Bydd yr arian ychwanegol yn cefnogi Blaendaliadau i awduron/Comisiynau, Grantiau Marchnata, Swyddi Golygyddol a/neu Marchnata, Gwobrau i'r Diwydiant a Chyfres o Glasuron (*Library of Wales*).

Yn ystod 2004/05, cychwynnir y prosiect *Library of Wales* a dyfernir y grantiau cyntaf a ddaw o'r cyllid ychwanegol. Y brif amcan yn ystod 2005–08 fydd sicrhau bod unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei weinyddu'n effeithiol, yn unol â phrif argymhellion yr Adolygiad Polisi a blaenoriaethau'r Gweinidog dros Ddiwylliant.

- Yr amcan dros gyfnod y Cynllun fydd cyfuno'r Grant Llenyddiaeth a'r cyllid ychwanegol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r holl gyllid, ond gan ddiogelu blaenoriaethau gwahanol y naill elfen a'r llall.

Amcan yr Adran Grantiau yw cydgordio'r systemau Cymraeg a Saesneg hyd y bo modd, heb effeithio ar amcanion a nodweddion arbennig y gwahanol grantiau.

6.5 Cyllid a Rheolaeth

Amcan

Darparu fframwaith rheoli i sicrhau bod gwaith y Cyngor yn cael ei gyflawni yn unol â gofynion y Cyfansoddiad.

Rhestrir isod yr elfennau fydd yn cael sylw yn ystod cyfnod y Cynllun:

.1 Gweinyddiaeth ac Adnoddau Dynol

- Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol ar faterion yn ymwneud ag adnoddau dynol, a bod y Llawlyfr Staff yn cael ei addasu yn ôl yr angen.

- Parhau i weithredu cynllun ffurfiol i gloriannu staff, a datblygu ymhellach y cynllun hyfforddiant staff.

- Trefnu cyfarfodydd rheolaidd o'r Panel Enwebiadau fel bod pob penodiad i banelau ymgynghorol yn cael ei wneud mewn ffordd agored a thryloyw.

- Adolygu'r Polisi Asesu Risg yn rheolaidd.

- Cymryd rhan mewn trafodaethau a chwarae rhan weithredol mewn datblygu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer y diwydiant cyhoeddi.

.2 Cyllid

Edrych i mewn i ddulliau o awtomeiddio ymhellach y drefn o brosesu taliadau a derbyniadau.

.3 Adeiladau

Parhau â'r rhaglen waith gyfredol, yn dilyn yr adroddiad a gomisiynwyd yn 2001.

.4 Cerbydau

Adnewyddu cerbydau'r Cyngor gan ddilyn rhaglen dreiglol.

7 STRATEGAETH TYMOR-HIR

7.1 Deil prif amcanion y Cyngor, fel y'u mynegir yn y Cyfansoddiad, yn berthnasol ac maent yn annhebygol o newid. Bydd y pwyslais yn parhau ar gyflawni'r Swyddogaethau Craidd a'r Prif Amcanion a restrir yn adran 3 uchod.

7.2 Manylir isod ar agweddau pwysicaf y strategaeth ar gyfer y tymor hir.

7.3 **Darparu Gwybodaeth, Hybu a Marchnata**

- Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu gwybodaeth am gynnyrch y wasg yng Nghymru gan fanteisio fwyfwy ar botensial y Rhyngrwyd a chyda'r bwriad o drosglwyddo'r wybodaeth ddiweddaraf yn y ffordd gyflymaf bosibl ac i'r gynulleidfa fwyaf bosibl. Ceisir sefydlu partneriaethau â'r prif chwaraewyr sy'n gweithredu yn y farchnad fyd-eang.

- Bydd y Cyngor yn ceisio perswadio Llywodraeth y Cynulliad ac eraill fod yn rhaid cael cyllid realistig ar gyfer marchnata llyfrau'n effeithiol. Nodwyd marchnata fel un o brif fannau gwan y diwydiant cyhoeddi yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac argymhellwyd yn yr adroddiad y dylid paratoi Strategaeth Farchnata Gytûn ar gyfer y diwydiant cyfan, a hynny fel mater o frys. Mae'r Strategaeth Farchnata Gytûn bellach wedi ei chwblhau a'i chostio gan weithgor yn cynrychioli pob grŵp perthnasol, a chaiff ei chynnwys fel rhan o gais y Cyngor am gyllid ychwanegol ar ran y diwydiant ar gyfer 2005/06 a thu hwnt. Credwn mai'r Strategaeth hon yw'r allwedd i ddatblygu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn y ddwy iaith – barn a rennir gan y Pwyllgor Diwylliant yn ei Adolygiad Polisi o ysgrifennu Saesneg yng Nghymru.

- Un o'r anghenion pennaf yn y tymor hir yw wynebu'r newidiadau sy'n digwydd ym mhatrymau byw a siopa pobl, a dyfeisio dulliau newydd o werthu llyfrau – trwy farchnata uniongyrchol (a hynny fwyfwy trwy'r Rhyngrwyd ac e-fasnach – cf. y penderfyniad i gyflenwi unigolion yn uniongyrchol trwy *gwales.com*), trwy siopau cadwyn, mewn archfarchnadoedd ac yn y blaen – ac i gyflawni hyn heb danseilio'r siopau llyfrau Cymraeg (gan gynnwys y siopau bach, annibynnol) sy'n parhau â rhan bwysig i'w chwarae. Gweledigaeth y Cyngor yw targedu fwyfwy y chwaraewyr mawr yn y diwydiant. Byddwn hefyd yn dilyn polisi cyfochrog i gryfhau llyfrwerthwyr lleol, annibynnol gyda'r bwriad o greu cnewyllyn o lyfrwerthwyr arbenigol, deinamig, sy'n fodlon gwella eu gwasanaethau, buddsoddi mewn technoleg, a darparu gwasanaeth effeithlon i'w cwsmeriaid.

- Mae'r Cynllun Ysgolion wedi dangos mai'r ffordd orau o ddigon o dargedu ysgolion yw trwy gyfuniad o ymweliadau personol a phostiadau tymhorol. Ein dymuniad fyddai gweld ehangu'r cynllun fel bod pob ysgol yng Nghymru'n derbyn o leiaf un ymweliad y flwyddyn. (Trwy gyfrwng yr ymweliadau ag ysgolion yn 2003/04 cafwyd gwerth dros £385,000 o archebion uniongyrchol am lyfrau ac adnoddau.)

- O ran llyfrau Saesneg o Gymru, y sialens o hyd yw ceisio creu marchnad sylweddol y tu allan i Gymru. Ni ddaw llwyddiant yn hyn o beth hyd oni ellir goresgyn y gwendidau yn strwythur y prif dai cyhoeddi a'r diffyg adnoddau dybryd sy'n llesteirio unrhyw ddatblygu. Y mae hwn bellach yn fater o bwys i'r Cyngor Llyfrau, yn dilyn trosglwyddo'r cyfrifoldebau o Gyngor y Celfyddydau. Yn y cyswllt hwn, ymgymerwyd â'r Adolygiad Polisi ar adeg addas iawn.

- Mae'r Cyngor Llyfrau'n ymrwymedig i hybu darllen a llythrennedd (fel y dangoswyd drwy ei waith yng nghyswllt y Flwyddyn Darllen Genedlaethol) a hoffai dderbyn yr adnoddau angenrheidiol i gydlynu'r ymdrechion yn y maes hwn drwy gydol y flwyddyn fel bod pob sector o'r gymdeithas, a phob oedran, yn dod yn ymwybodol o rym a phleser darllen.

7.4 Darparu Gwasanaethau

- Er y rhagwelir y bydd angen i'r Cyngor barhau i ddarparu gwasanaethau craidd canolog, bydd y pwyslais ar atgyfnerthu cyhoeddwyr, trwy ddarparu staff ac adnoddau, fel y gallant ddod yn fentrau cryfach, mwy deinamig. Bydd hyn yn cynnwys datblygu rhaglen hyfforddiant staff.

- Cadarnhaodd adroddiad Kilborn yr angen am Ganolfan Ddosbarthu sy'n gallu cyflenwi popeth Cymraeg a Chymreig yn y maes. Bydd y pwyslais presennol ar ddatblygu'r Ganolfan yn parhau, a bydd angen i'r Cyngor barhau i fuddsoddi yn y dechnoleg ddiweddaraf er mwyn darparu'r gwasanaeth cyflymaf a mwyaf effeithiol. Bydd yn rhaid parhau i gadw golwg ar hyfywedd y Ganolfan mewn marchnad fwyfwy cystadleuol lle mae arbedion graddfa'n ffafrio'r cyfanwerthwyr masnachol mawr.

- Bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio'n agos ag awdurdodau llyfrgelloedd Cymru a rhagwelir perthynas agosach fyth dros y blynyddoedd nesaf yn sgil datblygu'r cyswllt electronig a'r pwyslais cynyddol mewn llyfrgelloedd ar ennill mwy o ddarllenwyr.

7.5 Cefnogi Awduron

Bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio ag eraill i sicrhau gwell statws a thelerau i awduron. Mae taliadau uwch bellach ar gael ar gyfer awduron sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, yn dilyn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Yn ystod yr Adolygiad Polisi, gwnaed cais cyffelyb ar gyfer ysgrifennu Saesneg yng Nghymru, a bydd £55,000 ar gael yn ystod 2004/05 i alluogi cyhoeddwyr i ddechrau comisiynu llyfrau poblogaidd a allai gyrraedd marchnad eang.

7.6 Grantiau Cyhoeddi

Mae strategaeth tymor-hir y Cyngor i ddatblygu cyhoeddi yn Gymraeg wedi ei hamlinellu yn y ddogfen *Gyda'n Gilydd*; aeth y ddogfen hon drwy broses ymgynghori drwyadl ac o'r herwydd mae'n cynrychioli barn mwyafrif llethol y diwydiant cyhoeddi a chyrff perthnasol eraill. Roedd adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ategu casgliadau'r ddogfen *Gyda'n Gilydd* ac mae'r newidiadau sydd bellach ar waith yn gam pwysig tuag at weithredu gweledigaeth *Gyda'n Gilydd*. Nid yw'r gefnogaeth a roddir i weithiau o werth llenyddol trwy'r Grant Llenyddiaeth (a gaiff ei chyfuno, maes o law, gyda'r Grant Cyhoeddi) yn gwrthdaro mewn unrhyw ffordd â'r weledigaeth hon.

Yn ei rôl newydd ehangach, mae'r Cyngor Llyfrau wedi ymdrechu i sicrhau gwelliannau ar gyfer cyhoeddi yn Saesneg ac wedi cyfrannu at Adolygiad Polisi y Cynulliad Cenedlaethol ar ysgrifennu Saesneg yng Nghymru. Bydd y Cyngor Llyfrau'n ymdrechu i sicrhau bod cyllid digonol ar gael i weithredu prif argymhellion yr Adolygiad. Fel y sefydliad y rhoddwyd iddo'r cyfrifoldeb i ofalu am fuddiannau'r diwydiant cyhoeddi yn ei gyfanrwydd, ac yn y ddwy iaith, bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector i ddatblygu'r diwydiant mewn ffordd strwythuredig. Y nod fydd creu diwydiant cyhoeddi sy'n egnïol a ffyniannus ac sy'n ateb amcanion y Cynulliad, o ran menter ac arloesi.

7.7 Cyllid a Rheolaeth

- Bydd yr Is-Banel Systemau Gwybodaeth yn paratoi strategaeth tymor-hir ar gyfer holl waith y Cyngor.

- Gyda'r amgylchfyd y mae'r Cyngor yn gweithredu o'i fewn yn newid yn gyflym, rhagwelir y bydd angen pwyslais cynyddol ar hyfforddi staff fel eu bod yn gallu ymaddasu i ofynion newydd.

- Bydd y Cyngor yn parhau i archwilio posibiliadau newydd o ran ariannu cynlluniau penodol, o'r sector gyhoeddus ac o'r sector breifat.

7.8 Eraill

Bydd y Cyngor yn manteisio ar bob cyfle i gydweithio ag eraill wrth hyrwyddo'i amcanion.

- Mae'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol a Diwrnod y Llyfr wedi creu cyfle i gydweithio'n agosach â nifer o bartneriaid newydd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys mudiadau gwirfoddol, partneriaid busnes, darlledwyr, a'r wasg a'r cyfryngau.

- Yn sgil sefydlu *Cymru'n Creu*, ceir cyfle i gydweithio'n agosach â rhychwant eang o sefydliadau ym maes diwylliant.

- Bydd yr Academi yn dod yn bartner cynyddol bwysig yng nghyd-destun y datblygiadau cyfredol a rhai'r dyfodol.

- Mae'r bartneriaeth rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a'r Cyngor Llyfrau yn gyfle i ddatblygu cynlluniau ar y cyd, nid lleiaf ym maes ymchwil. Mae *Y Llyfr yng Nghymru*, y cylchgrawn blynyddol a gynhyrchir ar y cyd rhwng y tri sefydliad, yn enghraifft o'r cydweithio hwn.

8 ADOLYGIAD O'R CYNNYDD YN Y PRIF FLAENORIAETHAU

oddi ar y Cynllun Corfforaethol diwethaf

AMCANION	MANYLION CYFLAWNI
1 Grŵp Gorchwyl a Gorffen (Cyhoeddi yn y Gymraeg) Parhau i weithredu'r argymhellion fel y'u nodir yn y Cynllun Gweithredu.	Mae'r cynnydd yn parhau, gyda chyllid ychwanegol yn 2004/05 ar gyfer llyfrau llafar, cylchgronau i bobl ifanc, cefnogaeth i ddarlunwyr/ffotograffwyr a marchnata.
2 Gweinyddu'r Grant Llenyddiaeth Gweinyddu'r Grant newydd yn unol â'r Cytundeb â arwyddwyd gyda Chyngor y Celfyddydau.	Gweinyddwyd y flwyddyn gyntaf yn llwyddiannus. Penodwyd Swyddog Grantiau (Medi 2003) a sefydlwyd Panel Grantiau Cyhoeddi (Saesneg) newydd.
3 Adolygiad Polisi y Cynulliad Y Cyngor Llyfrau i chwarae rhan flaengar wrth gyflwyno'r achos dros ddatblygu cyhoeddi yn yr iaith Saesneg yng Nghymru.	Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (*Welsh Writing in English*, Mawrth 2004) yn cynnig cynllun ar gyfer datblygu'r maes. Cyhoeddodd y Gweinidog gyllid ychwanegol o £250,000 ar gyfer 2004/05.
4 Y Strategaeth Farchnata Gytûn Cydlynu ymdrechion ar draws y diwydiant i greu Strategaeth Farchnata Gytûn ar gyfer cyhoeddi yng Nghymru.	Ffurfiwyd gweithgor a chynhyrchwyd dogfen derfynol yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad rhwng y cyrff perthnasol. Cafodd ei chyflwyno mewn ffurf drafft i'r Adolygiad Polisi lle derbyniodd ganmoliaeth uchel. Yn ddiweddarach, cafodd y Strategaeth ei chostio ac fe'i cynhwysir yn y Cynllun Corfforaethol hwn fel rhan o gais y Cyngor ar ran y diwydiant am adnoddau ychwanegol.
5 Y Ganolfan Ddosbarthu Strategaeth bum-mlynedd: adroddiad Kilborn.	Mae'r gwaith yn parhau. Bwriedir cynnal arolwg o'r drefn gynrychiolaeth yn 2004/05.
6 *Gwales.com* Gwella *gwales.com* ymhellach gyda golwg ar ehangu ei apêl fel safle marchnata.	Cyflawnwyd y gwaith ym mis Mai 2004.
7 Siopau Llyfrau Cynorthwyo siopau llyfrau bychain i fanteisio ar y dechnoleg newydd.	Dyfarnwyd grantiau gwerth £38,433 i 29 o siopau llyfrau yng nghyswllt technoleg.

8 VISTA Adnewyddu/diweddaru system gyfrifiadurol VISTA.	Cyflawnwyd y gwaith yn llwyddiannus ac y mae'n gweithio'n llawn oddi ar Ebrill 2004.
9 Cynllun Tocynnau Llyfrau Ailwampio ac ail-lansio'r cynllun.	Cyflawnwyd yn llwyddiannus mewn da bryd ar gyfer y farchnad Nadolig (19.99% o gynnydd yn y gwerthiant yn 2003/04).
10 Diwrnod y Llyfr Chwilio am gyllid i barhau i gydlynu Diwrnod y Llyfr.	Cyllid ychwanegol (£75,000) wedi ei gyhoeddi ar gyfer yr achlysur yn 2005. Comisiynwyd adroddiad gwerthuso ar Ddiwrnod y Llyfr 2004.
11 Culturenet Cymru Sefydlu cynllun peilot i ganiatáu mynediad yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr, i lyfrau o arwyddocâd diwylliannol sydd allan o brint ac sy'n annhebygol o ddod yn ôl i brint.	Lansiwyd Llyfrau o'r Gorffennol ym mis Mai, gyda'r Cyngor Llyfrau fel y partner arweiniol.
12 Gwobrau Llyfrau Sgiliau Sylfaenol Trefnu cyfres o Wobrau newydd mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.	Trefnwyd achlysur llwyddiannus ym mis Tachwedd 2003. Dilynwyd hyn gan weithgaredd hybu a chyhoeddi llyfryn yn 2004.
13 Arian Prosiect Chwilio am arian prosiect o ffynonellau eraill i ariannu prosiectau ychwanegol.	Mae Diwrnod y Llyfr, Gwobrau Llyfrau Sgiliau Sylfaenol, prosiect Llyfrau o'r Gorffennol a'r Catalog Llyfrau Plant, i gyd yn derbyn arian prosiect o ffynonellau eraill.

9 TARGEDAU

9.1 TARGEDAU ALLWEDDOL A OSODWYD GAN LYWODRAETH Y CYNULLIAD

	2003/04 TARGED	2003/04 CYFLAWNI	2004/05 TARGED	2005/06 TARGED
Gwerth llyfrau a werthwyd trwy'r Ganolfan Ddosbarthu	Cyfartaledd cynnydd o 5%	£4.2 m (cynnydd o 4.9%)	£4.4 m	£4.6 m
Nifer y llawysgrifau a gynorthwywyd gan yr Adran Olygyddol	180	206	180	180
Nifer yr adolygiadau a osodwyd ar *gwales.com*	500	522	500	500
Nifer y teitlau a gynorthwywyd gan yr Adran Ddylunio	120	128	120	120

Mae Cynllun Gweithredu'r Cyngor yn cynnwys ystod eang o dargedau ar weithgaredd rhaglen.

9.2 TARGEDAU ALLWEDDOL YNG NGHYSWLLT DOSBARTHU'R GRANTIAU CYHOEDDI

TARGEDAU MEINTIOL AR GYFER Y GRANT CYHOEDDI (Cymraeg)

.1 Nifer y llyfrau a gefnogir mewn blwyddyn

TARGED: Dim llai na 175 y flwyddyn.
Cyflawnwyd: Cefnogwyd 230 o deitlau yn 2003/04.

.2 Ffigurau gwerthiant

TARGED: Cyrraedd cyfartaledd gwerthiant o 1,100 dros ddwy flynedd am lyfrau a gefnogwyd yn ystod 2002/03 a 2003/04.
Cyflawnwyd: Cyfartaledd gwerthiant o 1,118 wedi'i gyflawni ar ôl cyfnod o 18 mis. (Roedd y rhain yng nghyswllt llyfrau a gyhoeddwyd yn 2001/02.)

.3 Ffigurau gwerthiant ar gyfer cylchgronau

TARGED: Cyrraedd cyfartaledd gwerthiant y teitl o 3,200 copi ar gyfer y cylchgronau a gefnogir.
Cyflawnwyd: 3,287 (2003/04).

.4 Dyddiadau cyhoeddi (cylchgronau)

TARGED: 95% o'r rhifynnau i'w cyhoeddi'n rheolaidd yn ôl yr amserlen a gytunwyd ar gyfer pob cylchgrawn.
Cyflawnwyd: 100% llwyddiant (2003/04).

TARGEDAU MEINTIOL AR GYFER Y GRANT LLENYDDIAETH (Cymraeg a Saesneg)

.5 Nifer y llyfrau Cymraeg a gefnogir yn flynyddol

TARGED: Dim llai na 15 teitl y flwyddyn.
Cyflawnwyd: 21 (2003/04).

.6 Nifer y llyfrau Saesneg o Gymru a gefnogir yn flynyddol

TARGED: Dim llai na 60 teitl y flwyddyn.
Cyflawnwyd: 72 (2003/04).

DATBLYGIADAU PELLACH A PHWYNTIAU GWEITHREDU AR GYFER 2005/06 A THU HWNT

.7 Monitro ac asesu gwaith y chwe phrif gyhoeddwr rhaglen (llyfrau Cymraeg).

.8 Cyfuno'r Grant Llenyddiaeth ar yr ochr Gymraeg gyda'r Grant Cyhoeddi o 2005 ymlaen.

.9 Monitro ac asesu gwaith y pedwar cyhoeddwr refeniw (llyfrau Saesneg).

.10 Asesu a dechrau ar y gwaith o ystyried anghenion hyfforddiant y cyhoeddwyr refeniw.

.11 Monitro ac asesu'r cynlluniau newydd ar gyfer cyhoeddi yn Saesneg a weithredwyd gyda'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd yn 2004/05.

.12 Sicrhau hyfywedd tymor-hir y cynlluniau newydd ar gyfer cyhoeddi yn Saesneg, a chyfuno'r rhain â'r Grant Llenyddiaeth presennol.

.13 Adolygu trwyddedau cylchgronau yng ngoleuni diwedd y cyfnod trwyddedu cyfredol ym mis Mawrth 2006 (Cymraeg a Saesneg).

.14 Gweithio i gydlynu'r systemau grant ar gyfer cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddiogelu elfennau a etifeddwyd.

.15 Paratoi taflenni gwybodaeth a chanllawiau ar gyfer rhai sy'n ymgeisio am grant, a hynny ar ffurf brintiedig ac electronig.

10 ANGHENION CYLLIDOL AR GYFER 2005/06–2007/08

10.1 **Cefndir**

.1 Er bod y Cyngor Llyfrau'n gorff anstatudol, mae'n cyflwyno Cynllun Corfforaethol yn flynyddol i'w gymeradwyo gan y Cynulliad, ac mae'n ddibynnol ar gymorth grant i gyflawni ei swyddogaethau craidd.

.2 Yn dilyn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i edrych ar faterion yn ymwneud â chyhoeddi, cymerwyd camau i resymoli a symleiddio dulliau ariannu'r Cyngor, ac oddi ar Ebrill 2002 Llywodraeth y Cynulliad yw prif ffynhonnell ariannu'r Cyngor.

Cafwyd datblygiad pellach ym mis Ebrill 2003 pan drosglwyddwyd i'r Cyngor Llyfrau y cyfrifoldeb am ddosbarthu grantiau Cyngor y Celfyddydau ym maes cyhoeddi (y Grant Llenyddiaeth). Cytunwyd y dylai'r cyllid hwn hefyd ddod yn uniongyrchol drwy Lywodraeth y Cynulliad.

.3 Ar gyfer 2004/05, ariennir y Cyngor gan Lywodraeth y Cynulliad fel a ganlyn:

	£
1 Costau rhedeg (yn cynnwys rhaglen weithgarwch graidd)	882,635
2 Grantiau prosiect	225,472
3 Grantiau i'w dosbarthu: Y Grant Cyhoeddi Y Grant Llenyddiaeth	 1,123,000 900,893 + 250,000*

* Cyllid ychwanegol ar gyfer 2004/05 yng nghyswllt yr Adolygiad Polisi o ysgrifennu Saesneg yng Nghymru.

.4 Mae'n bwysig nodi fod yna ddwy elfen ar wahân i waith y Cyngor:

- gwasanaethau i'r fasnach lyfrau a rhaglen o weithgarwch i hybu llyfrau a darllen (1 a 2 uchod)
- dosbarthu grantiau cyhoeddi (3 uchod)

O'r cyfanswm grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2004/05, mae 33% ar gyfer cyflogau, gweinyddiaeth a'r rhaglen weithgarwch graidd ynghyd ag ariannu prosiect. Y mae 67% yn arian i'w ddosbarthu mewn grantiau.

.5 Mae agweddau ar waith y Cyngor nad ydynt yn derbyn unrhyw arian o'r pwrs cyhoeddus: er enghraifft Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor sy'n gweithredu fel uned fasnachol, hunangynhaliol. Mae'r Ganolfan, a leolir yn Llanbadarn Fawr ar gyrion Aberystwyth, yn cyflenwi siopau llyfrau trwy Gymru benbaladr a thu hwnt, gan gynnig gwasanaeth dosbarthu diwrnod-wedyn i gwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Ganolfan yn adennill ei chostau o'r gwahaniaeth a geir rhwng y gostyngiad a ganiateir gan y cyhoeddwyr a'r gostyngiad a roddir i lyfrwerthwyr (12% ar y pris gwerthu yn achos stoc trosglwyddo a ddelir ar ran y prif gyhoeddwyr yng Nghymru).

.6 Cyfanswm costau gweithredol y Cyngor Llyfrau ar gyfer cyflogau, gweinyddiaeth a gweithgareddau (ac eithrio'r Grantiau Cyhoeddi) yw £1.9 miliwn. Daw 41% o'r costau hyn o adnoddau'r Cyngor ei hun (h.y. incwm a gynhyrchir gan Adrannau'r Cyngor, gan gynnwys y Ganolfan Ddosbarthu).

10.2 Crynodeb o anghenion 2005/06

.1 Mae amcangyfrifon Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2005/06 fel a ganlyn:

	£
1 Costau rhedeg (yn cynnwys rhaglen weithgarwch graidd)	912,951
2 Grantiau prosiect	195,156
3 Grantiau i'w dosbarthu:	
Y Grant Cyhoeddi	1,123,000
Y Grant Llenyddiaeth	900,893
	3,132,000

Mae cyllideb gytbwys wedi ei pharatoi ar sail y ffigurau hyn (gw. Atodiad, t.32).

SYLWER: NID yw'r gyllideb gytbwys hon yn cynnwys cyllid i barhau â'r swydd Swyddog Cyswllt Llyfrgelloedd i gynorthwyo llyfrgelloedd i ddatbygu eu casgliadau o ysgrifennu Saesneg yng Nghymru (cf. yr Adolygiad Polisi) a'u casgliadau Cymraeg (cf. Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus). **Byddai angen £25,000 ychwanegol i barhau i ariannu swydd ran-amser** (cyflog + costau teithio/ cynhaliaeth).

.2 Ysgrifennu Saesneg yng Nghymru: Adnoddau Ychwanegol Angenrheidiol 2005/06–2007/08

Mewn ymateb i'r Adolygiad Polisi o ysgrifennu Saesneg yng Nghymru a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Diwylliant (Mawrth 2004), cyhoeddodd y Gweinidog dros Ddiwylliant gyllid ychwanegol o £250,000 am 2004/05 i ddechrau ar y gwaith mewn tri maes:

- ysgrifennu newydd (cynllun blaendaliadau i awduron/comisiynau; swyddi a grantiau marchnata)
- cyfres o glasuron (*Library of Wales*)
- sefydlu cyfres o Wobrau i'r Diwydiant

Cafodd buddsoddi mewn ysgrifennu newydd, a strwythur y diwydiant cyhoeddi Saesneg yng Nghymru, eu nodi fel 'prif flaenoriaeth cyllido Llywodraeth y Cynulliad'. Mae darparu Blaendaliadau i Awduron/Comisiynau, Swyddi Golygyddol a Marchnata a Grantiau Marchnata wedi cael eu nodi fel elfennau angenrheidiol strategaeth a fydd yn caniatáu i gyhoeddwyr ddatblygu amrywiaeth eu cynnyrch a datblygu'n fentrau diwylliannol llwyddiannus, gan gynnig i ysgrifennu Saesneg yng Nghymru y sylw a'r bri y mae'n ei haeddu.

Mae isafswm o gyllid yn angenrheidiol ar gyfer y maes hwn os yw'r amcanion hyn i'w cyrraedd. Ni fyddai tan-ariannu'n arwain yn syml at lwyddiant ar raddfa lai. Mae angen crynswth hanfodol o deitlau poblogaidd wedi eu marchnata'n dda – ynghyd â'r strwythur angenrheidiol i gynhyrchu'r llyfrau hyn – er mwyn rhoi i'r diwydiant cyhoeddi y cyfle y mae arno ei angen, a galluogi'r weledigaeth a amlinellir yn yr Adolygiad Polisi i gael ei gwireddu.

YSGRIFENNU SAESNEG YNG NGHYMRU – DEWISIADAU O RAN ADNODDAU

DEWIS 1 – £300,000 y flwyddyn

Y lleiafswm o fuddsoddiad angenrheidiol y flwyddyn yw £300,000 – h.y. parhau'r cyllido presennol o £250,000 ynghyd â £50,000 ychwanegol i ariannu'r prosiect clasuron am flwyddyn lawn:

	£
Grantiau Comisiwn	55,000
Swyddi Golygyddol/Marchnata	55,000
Cyllideb Farchnata	75,000
Gwobrau i'r Diwydiant	15,000
Y Clasuron	100,000
	300,000

DEWIS 2 – £500,000 y flwyddyn

Swm dymunadwy a fyddai'n dechrau gwneud gwahaniaeth gwirioneddol fyddai £500,000 y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys swm o £100,000 tuag at ddechrau gwneud cynnydd gyda'r Strategaeth Farchnata Gytûn a gafodd ei nodi yn ystod yr Adolygiad fel yr allwedd i ymdrin â gwendidau hir-sefydlog ym maes cyhoeddi yng Nghymru.

	£
Grantiau Comisiwn	100,000
Swyddi Golygyddol/Marchnata	85,000
Cyllideb Farchnata	100,000
Gwobrau i'r Diwydiant	15,000
Y Clasuron	100,000
Strategaeth Farchnata Gytûn	100,000
	500,000

DEWIS 3 – £995,000 y flwyddyn

Costau realistig yr argymhellion a gymeradwywyd gan y Gweinidog yn Ymateb y Cabinet i'r Adolygiad Polisi fyddai £995,000. Byddai gan fuddsoddiad ar y lefel hon dros y 5–7 mlynedd nesaf y potensial i drawsnewid cyflwr presennol cyhoeddi Saesneg yng Nghymru; byddai hefyd yn cynorthwyo i greu'r diwydiant egnïol a deinamig a ragwelwyd gan yr Adolygiad Polisi ac a ddenodd y fath gefnogaeth eang gan bob plaid o fewn y Cynulliad.

	£
Grantiau Comisiwn	180,000
Swyddi Golygyddol/Marchnata	100,000
Cyllideb Farchnata	200,000
Gwobrau i'r Diwydiant	15,000
Y Clasuron	100,000
Strategaeth Farchnata Gytûn	400,000
	995,000

Gellir darparu rhagor o fanylion ar gyfer pob llinell o'r gyllideb.

10.3 Crynodeb o'r anghenion ar gyfer 2006/07 a 2007/08

	2006/07	2007/08
	£	£
1 Costau rhedeg (yn cynnwys rhaglen graidd)	951,274	977,990
2 Grantiau prosiect	200,833	205,042
3 Grantiau i'w dosbarthu:		
Y Grant Cyhoeddi	1,123,000	1,123,000
Y Grant Llenyddiaeth	900,893	900,893
	3,176,000	3,206,925

Y ffigurau a restrir uchod yw'r rhai a ddefnyddir fel sail i'r cyfrifon (t. 32) a'r codiadau y gwneir cais amdanynt yw 1.40% yn 2006/07 a 0.97% yn 2007/08.

Mae'r cyllid ychwanegol y gwneir cais amdano am y cyfnod 3-blynedd yn cael ei grynhoi ar y dudalen nesaf.

CAIS AM GYLLID YCHWANEGOL 2005/06–2006/07–2007/08
(yn nhrefn blaenoriaeth)

LLINELL GYLLIDEB	2005/06 £	2006/07 £	2007/08 £	NODIADAU ESBONIADOL
CATEGORI: HANFODOL Costau rhedeg a grantiau prosiect Costau rhedeg	- -	 44,000	 74,925	Ffigurau angenrheidiol i gynnal cyllideb gytbwys (t.32) yn 2006/07 a 2007/08. Maent yn llwyr gyfyngedig i ateb y cynnydd mewn cyflogau yn unol â'r hyn a welir yn y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r cyllidebau.
Adolygiad Polisi: Ysgrifennu Saesneg yng Nghymru DEWIS 1 DEWIS 2 DEWIS 3	 300,000 neu 500,000 neu 995,000	 300,000 neu 500,000 neu 995,000	 300,000 neu 500,000 neu 995,000	Tuag at ddechrau gweithredu'r Adolygiad Polisi. Mae Dewis 1 yn barhad o 2004/05 gyda phrosiect y Clasuron yn gweithredu am flwyddyn lawn (£250,000 + £50,000). Mae Dewis 2 a 3 yn gostau mwy realistig ar sail yr hyn a gymeradwywyd gan y Gweinidog (gw. t.29).
CATEGORI: DYMUNADWY IAWN Costau rhedeg a grantiau prosiect Grantiau prosiect	 25,000	 25,000	 25,000	Tuag at barhau â'r gwaith cyswllt llyfrgelloedd a ddechreuwyd yn 2004/05 (fe'i cynhwysir hefyd yn y Strategaeth Farchnata Gytûn). Mae'r swm yn caniatáu ar gyfer swydd ran-amser gyda chostau cysylltiedig.
CATEGORI: DYMUNADWY (Cariwyd ymlaen o Gynllun y llynedd) Hyfforddiant cyfreithiol arbenigol a chymorth ar glirio hawliau digidol	5,000	-	-	Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i ddechrau gweithredu adroddiad Rightscom ar ddatblygu cyhoeddi digidol.
Sefydlu a chynnal system rheolaeth cynnwys	90,000	50,000	50,000	Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i ddechrau gweithredu adroddiad Rightscom ar ddatblygu cyhoeddi digidol.

SYLWER:
Gan mai yn ddiweddar iawn y cymerodd y Cyngor gyfrifoldeb am bortffolio cyhoeddi Cyngor y Celfyddydau, ac yng ngoleuni pwysigrwydd arbennig yr Adolygiad Polisi ar ysgrifennu Saesneg yng Nghymru, mae'r cais hwn am gyllid ychwanegol yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar argymhellion yr Adolygiad Polisi yn y meysydd a gymeradwywyd gan y Gweinidog trwy Ymateb y Cabinet i'r Adolygiad.

12 ATODIADAU

ANGHENION CYLLIDOL CYFREDOL INCWM	2005/06 £	2006/07 £	2007/08 £
Llywodraeth y Cynulliad			
Costau rhedeg yn cynnwys y rhaglen weithgarwch graidd	912,951	951,274	977,990
Grantiau prosiect	195,156	200,833	205,042
Grantiau i'w dosbarthu:			
Grant Cyhoeddi	1,123,000	1,123,000	1,123,000
Grant Llenyddiaeth	900,893	900,893	900,893
Ffynonellau eraill o incwm i brosiectau:			
Llywodraeth y Cynulliad – Diwrnod y Llyfr a gweithgarwch perthynol	75,000	75,000	75,000
ACCAC: Catalog Llyfrau Plant	12,000	12,000	12,000
Incwm yr Adrannau	258,050	264,350	270,650
Y Ganolfan Ddosbarthu	3,118,927	3,274,341	3,437,493
CYFANSWM INCWM	6,595,977	6,801,691	7,002,068
GWARIANT			
Costau gweithredu yn cynnwys y rhaglen weithgarwch graidd	1,152,501	1,196,924	1,229,740
Gwariant prosiect	300,656	306,533	310,942
Grantiau i'w dosbarthu:			
Y Grant Cyhoeddi	1,123,000	1,123,000	1,123,000
Y Grant Llenyddiaeth	900,893	900,893	900,893
Y Ganolfan Ddosbarthu	3,092,827	3,243,353	3,403,929
Gweddill/(Diffyg) am y flwyddyn:			
Y Ganolfan Ddosbarthu	26,100	30,988	33,564
Cyngor	-	-	-
CYFANSWM GWARIANT	6,595,977	6,801,691	7,002,068

NODIADAU

1 Ffactor chwyddiant ar gyflogau: 3% yn 2005/06, 2006/07 a 2007/08

2 Yr union gynnydd yng nghostau cyflogau: 5.67% yn 2005/06, 5.44% yn 2006/07 a 3.63% yn 2007/08

3 Ffactor chwyddiant ar gyfer pob eitem arall: DIM

AMCANGYFRIFON AR GYFER 2005/06

GWARIANT

	CYFLOGAU	COSTAU ERAILL	INCWM	NET	CYFANSWM
Costau Rhedeg (yn cynnwys y rhaglen weithgarwch graidd)					
Adran Olygyddol	84,026	39,900	(34,000)	5,900	89,926
Adran Ddylunio	78,613	27,000	(27,000)	–	78,613
Adran Farchnata	151,706	132,900	(75,000)	57,900	209,606
Adran Llyfrau Plant	73,801	134,800	(99,350)	35,450	109,251
Cynllun hybu llyfrau mewn ysgolion cynradd	111,035	24,200	(4,200)	20,000	131,035
Gwasanaethau atodol	204,488	90,032	–	90,032	294,520
CYFANSWM COSTAU RHEDEG	**703,669**	**448,832**	**(239,550)**	**209,282**	**912,951**
Costau Prosiect					
Cynllun hybu llyfrau mewn ysgolion uwchradd	27,536	22,277	(2,300)	19,977	47,513
Cynllun Ymestyn	21,752	33,657	(1,200)	32,457	54,209
Cynllun Cynrychiolaeth	23,345	10,135	–	10,135	33,480
Cynllun i hyrwyddo llyfrau dramor	32,423	23,906	–	23,906	56,329
Catalog llyfrau plant (Saesneg)	–	3,625	–	3,625	3,625
	105,056	**93,600**	**(3,500)**	**90,100**	**195,156**
Diwrnod y Llyfr	8,000	82,000	(15,000)	67,000	75,000
Catalog llyfrau plant (Cymraeg)	–	12,000	–	12,000	12,000
	8,000	**94,000**	**(15,000)**	**79,000**	**87,000**
CYFANSWM COSTAU PROSIECT	**113,056**	**187,600**	**(18,500)**	**169,100**	**282,156**
CYFANSWM COSTAU	**816,725**	**636,432**	**(258,050)**	**378,382**	**1,195,107**
Y Grant Cyhoeddi					1,123,000
Y Grant Llenyddiaeth					900,893
CYFANSWM GRANTIAU I'W DOSBARTHU					**2,023,893**

Y GRANT CYHOEDDI

ANGHENION CYLLIDOL CYFREDOL

		2004/05 Clustnodwyd	2005/06	2006/07	2007/08
		£	£	£	£
1	GRANTIAU I LYFRAU	415,000	415,000	415,000	415,000
2	TALIADAU I AWDURON A DARLUNWYR	210,000	210,000	210,000	210,000
3	COMISIYNAU CLLC	6,000	5,000	4,000	4,000
4	PENODIADAU A HYFFORDDIANT	80,000	80,000	80,000	80,000
5	GRANTIAU I GYLCHGRONAU	160,000	160,000	160,000	160,000
6	LLYFRAU LLAFAR	30,000	30,000	30,000	28,500
7	CD-ROMau, GÊMAU	17,000	17,000	17,000	17,000
8	YMCHWIL FARCHNAD	15,000	14,500	14,000	14,000
9	LLYFRWERTHWYR	40,000	40,000	40,000	40,000
10	MARCHNATA	75,000	75,000	75,000	75,000
11	GWEINYDDU	75,000	76,500	78,000	79,500
		1,123,000	1,123,000	1,123,000	1,123,000

Y GRANT LLENYDDIAETH

ANGHENION CYLLIDOL CYFREDOL

		2004/05	2005/06	2006/07	2007/08
		Clustnodwyd			
		£	£	£	£
1	CYLCHGRONAU REFENIW				
	Cymraeg	207,923	207,923	207,923	207,923
	Saesneg	175,760	175,760	175,760	175,760
2	LLYFRAU REFENIW				
	Cymraeg	94,629	94,629	94,629	94,629
	Saesneg	204,422	204,422	204,422	204,422
3	CYHOEDDWYR RHAGLEN A CHEISIADAU UNIGOL				
	Cymraeg	28,729	28,599	28,199	27,799
	Saesneg	116,740	116,560	115,960	115,360
4	GWEINYDDU	72,690	73,000	74,000	75,000
		900,893	900,893	900,893	900,893

Sylwer

Mae'r Grant Llenyddiaeth a etifeddwyd gan Gyngor y Celfyddydau'n cefnogi deunydd Cymraeg a Saesneg. Ar hyn o bryd mae'r gymhareb (2004/05) yn 60%:40% o blaid deunydd Saesneg. Mae'r Cyngor Llyfrau'n ymrwymedig i gynnal y gymhareb 60:40. Mae'r cais am adnoddau ychwanegol ar gyfer anghenion cyhoeddi Saesneg wedi'i gynnwys ar wahân (gw. tt.28–29 a t.31).

STRATEGAETH FARCHNATA GYTÛN		
BLAENORIAETHAU'R GWEITHGOR AC AMCANGYFRIFON O'R COSTAU		
Mae'r gweithgor wedi cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Rhennir yr argymhellion yn ddau gyfnod, a bydd angen gweithredu ar bob pennawd er mwyn cymryd camau pendant ymlaen. Mae'r drefn o fewn y ddau gyfnod yn dilyn trefn y ddogfen. Nid yw'r tactegau, felly, yn nhrefn blaenoriaeth.		
CYFNOD CYNTAF	**Amcangyfrif**	**Nodiadau**
1. Gwella'r Sylw		
Cyflogi hyrwyddwr/asiant ar gyfer llyfrau Saesneg.	£40,000	Gweithio yng Nghymru yn bennaf ond gyda'r bwriad o ehangu'r gwasanaeth ac adeiladu ar sail llwyddiant. Pwyslais ar y wasg genedlaethol a'r cyfryngau (radio a theledu). Gall fod elfen o hyfforddiant i gyhoeddwyr yn rhan o'r cynllun gan nad oes sicrwydd y bydd hwn yn gynllun parhaol. Gosodir targedau pendant i fesur maint y sylw. Telerau fesul diwrnod ynghyd â chostau.
Creu Warws Gwybodaeth	£20,000	Angen £10,000 i greu y cynnwys, a £10,000 am y gwaith technegol. Lleolir y warws ar wefan cllc.org ond bydd y gwaith yn cael ei roi allan i asiantaeth/au i'w gyflawni. Gwasanaeth i'r diwydiant fyddai hwn, a byddai angen allweddair ar y defnyddiwr i gyrraedd cyfran o'r wybodaeth.
Cynorthwyo cyhoeddwyr i gynnal lansiadau	£40,000	Cyllid i gyhoeddwyr unigol tuag at lansiadau, teithiau awdur, sesiynau llofnodi, mewn cydweithrediad â gweddill y diwydiant a chan barchu'r gadwyn gyflenwi.
2. Codi Ymwybyddiaeth		
Cyhoeddi cylchgrawn/onau	£100,000	Cylchgrawn Cymraeg (dau rifyn y flwyddyn) a chylchgrawn Saesneg (dau rifyn y flwyddyn) i'w dosbarthu am ddim i'r cyhoedd trwy siopau llyfrau a llyfrgelloedd. Rhagwelir cylchgronau ysgafn sy'n rhoi sylw i lyfrau newydd, ac yn cynnwys hysbysebion ac erthyglau. Bydd ymgynghori manwl gyda'r fasnach a llyfrgelloedd er mwyn llunio manyleb fydd yn sail i'r broses o dendro cystadleuol. Gellir cynhyrchu cylchgrawn am £25,000 y rhifyn, gan argraffu 100,000 o gopïau yr un.

Cynhyrchu eitemau wedi'u brandio	£25,000	Dyfeisio brand y gellir ei ddefnyddio ar amrywiaeth o eitemau hyrwyddo, gan gynnwys blychau arddangos, cardiau arddangos ar gyfer ffenestri a chownteri, arwyddion silff etc, i gyd mewn cynllun a lliw sy'n denu cwsmeriaid at lyfrau o Gymru. Angen ymgynghori â siopau a llyfrgelloedd trwy'r Gweithgor gan fod eu hanghenion yn wahanol. Byddai'r brand hefyd ar gael i'w ddefnyddio mewn hysbysebu generig ac yn unrhyw gylchgrawn a gyhoeddir.
Sefydlu cynllun disgownt i siopau	£50,000	Cynllun i gynorthwyo siopau llyfrau annibynnol i gryfhau a gwella eu gwasanaeth - trwy gynnig bonws gwerthiant ar sail gwerthiant trwy'r Ganolfan Ddosbarthu, yn gyfnewid am welliannau mewn stocio a gwasanaethau i'r cyhoedd.
3.Gwella Cyfathrebu		
Cefnogi cymdeithas/au llyfrwerthwyr newydd	£10,000	Cymorth i helpu i sefydlu cymdeithas i gynrychioli buddiannau llyfrwerthwyr Cymru.
Hyfforddiant: Y Fasnach / Awduron a Golygyddion	£15,000	Dylid neilltuo £5,000 yr un ar gyfer hyfforddi Llyfrwerthwyr, Cyhoeddwyr ac Awduron/Golygyddion. Cyfraniad at yr hyn sydd ar gael o ffynonellau eraill. Dylai elfen o'r cyllid fod ar gael ar gyfer ceisiadau gan gyhoeddwyr/llyfrwerthwyr unigol yn ogystal â sesiynau i grwpiau penodol. Bydd cydweithio â'r Academi ar yr elfennau sy'n ymwneud ag Awduron.
Comisiynu arolwg o ddulliau cynrychiolaeth y Cyngor Llyfrau	Dim oblygiadau ariannol	Mae hwn wedi'i gynnwys yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac mae cyllid ar gael ar gyfer 2004/05. Bydd ymgynghori â holl sectorau'r diwydiant yn rhan bwysig o gylch gwaith yr ymgynghorwyr.
Penodi Rheolwr Gyfathrebu Llyfrgelloedd	£25,000	Penodiad blwyddyn ar y gweill fel rhan o Lythyr Cylch Gwaith y Cynulliad i'r Cyngor Llyfrau. Cyllid ar gael ar gyfer 2004/05 yn unig, ond gwneir cais yma am gyllid i barhau â'r gwaith am flwyddyn ychwanegol yn 2005/06.
4.Ehangu'r Farchnad		
Ehangu'r Farchnad yng ngweddill Ynysoedd Prydain	£20,000	Penodi hunan-liwtiwr rhan-amser, am flwyddyn i archwilio i'r hyn sy'n rhwystro cyhoeddwyr Cymru rhag cyrraedd y farchnad yng ngweddill Prydain a chynnig ffordd ymlaen i wella'r sefyllfa. Telerau fesul diwrnod + costau.
Sefydlu cynllun comisiynu Saesneg	–	Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi ymateb i'r pennawd hwn. Bydd cyllid ar gael i gyhoeddwyr tuag at gomisiynu teitlau poblogaidd Saesneg. Hyn eisoes ar gael ar gyfer awduron Cymraeg. Sianelir y ceisiadau trwy gyhoeddwyr.
Arolwg o lefelau darllen mewn llyfrgelloedd	–	Casglu data mewn perthynas â llyfrgelloedd yn rhan o gyfrifoldeb CyMAL. Y Cyngor Llyfrau a CyMAL i drafod y ffordd ymlaen.

AIL GYFNOD		
1. Gwella'r Sylw		
Cyflogi hyrwyddwr/asiant ar gyfer llyfrau Cymraeg	£25,000	Fel gyda'r Saesneg ond costau is am fod y wasg Gymraeg yn haws ei chyrraedd. Hyfforddiant i gyhoeddwyr yn berthnasol yma eto.
Seremoniau gwobrwyo	–	Y Llywodraeth eisoes wedi ymateb i'r pennawd hwn.
2. Codi Ymwybyddiaeth		
Hysbysebu generig	£50,000	Y bwriad fyddai arbrofi naill ai mewn un ardal neu mewn un cyfrwng (e.e. radio) i gyd-fynd â digwyddiad o bwys (e.e. Diwrnod y Llyfr/Gŵyl Ddewi/Arwerthiant). Y gwaith i'w roi allan i asiantaeth.
Ehangu Diwrnod y Llyfr yng Nghymru	£50,000	Ehangu Diwrnod y Llyfr er mwyn datblygu'r syniad o roi llyfr yn anrheg (yn ogystal â bod yn ddiwrnod hybu darllen a llythrennedd). Cyflogi hyrwyddwr i sicrhau sylw eang ar y cyfryngau ac mewn mannau gwerthu. Creu deunydd i hwyluso rhoi llyfr yn anrheg e.e. papur lapio, cerdyn cyfarch.
3. Gwella Cyfathrebu		
Cefnogaeth ariannol i LPW	£10,000	Cymorth tuag at swydd weinyddol ran-amser.
Cefnogaeth ariannol i Cwlwm y Cyhoeddwyr	£10,000	Cymorth tuag at swydd weinyddol ran-amser.
Sefydlu Grwp Newyddion E-bost	£5,000	Costau technegol a thâl i berson i arolygu'r grŵp.
4. Ehangu'r Farchnad		
Cynhadledd Llyfrwerthwyr	£3,000	Costau trefnu, siaradwyr a lleoliad.
Arolwg o agweddau cwsmeriaid (cyffredinol/archfarchnadoedd)	£20,000	Cyllideb fechan ar gyfer ymchwil farchnad ar gael o fewn y Grant Cyhoeddi (£15,000 y flwyddyn). Mae angen cyllid ychwanegol i gomisiynu arolwg o agweddau cwsmeriaid.
Creu cronfa o wybodaeth am awduron	£20,000	Angen £10,000 i greu'r cynnwys a £10,000 ar gyfer y gwaith technegol. Gellir defnyddio'r gwaith a gyflawnwyd eisoes gan yr Academi fel sail i'r gronfa gan leoli'r wybodaeth ar wefannau'r Academi a'r Cyngor Llyfrau.

DADANSODDIAD STAFF YN ÔL GRADDFA

	P.O. (1–5)	P.O. (46–49)	Graddfa S01/ S02/PO	Graddfa 6/SO1	Graddfa 5 + 4/5	Graddfa 3 + 2/3	Graddfa 1/2	**Cyfanswm**
GOLYGYDDOL		1	1			.5		**2.5**
DYLUNIO		1	1				.5	**2.5**
MARCHNATA		1	4		4	1	1	**11**
LLYFRAU PLANT		1	6			.5		**7.5**
Y GANOLFAN DDOSBARTHU		1	1		1	.5	9	**12.5**
Y GRANT CYHOEDDI			2.5				.5	**3**
GWASANAETHAU ATODOL: CANOLOG (yn cynnwys y Cyfarwyddwr)	1			1			2	**4**
GWEINYDDIAETH A CHYLLID		2			1			**3**
CYFANSWM	**1**	**7**	**15.5**	**1**	**6**	**2.5**	**13**	**46**

Mehefin 2004

STRWYTHUR PWYLLGORAU



STRWYTHUR TREFNIADOL



Mehefin 2004